OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1401 (Cy.140)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *21 Mai 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mai 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 42(1) a (2) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 31 Mai 2002.

### Diwygio Rheoliadau

**2.**—(1) Diwygir yr Atodlen i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 6, mewnosodwch ar ôl is-baragraff (a) “a”, a hepgorwch is-baragraff (c) a'r “ac” o'i flaen.

(3) Yn lle paragraff 8 rhowch—

“**8.** Yr wybodaeth sy'n ymwneud ag—

(a) disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol, neu'r gyflogaeth neu'r hyfforddiant y mae disgyblion yn dechrau arnynt wrth ymadael â'r ysgol; a

(b) absenoldeb awdurdodedig neu ddiawdurdod disgyblion,

y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn llawlyfr yr ysgol yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 537(1) o Ddeddf 1996(**4**).”.

(**1**) 1998 p.31. I gael ystyr “prescribed” a “regulations” gweler adran 142(1).
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2001/1110 (Cy. 54).
(**4**) Amnewidiwyd adran newydd 537(1) gan baragraff 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Y Rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999, O.S. 1999/1812, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1111 (Cy.55) ac O.S. 2002/1394 (Cy.37).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

21 Mai 2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwaredu'r gofyniad i gynnwys yn Adroddiadau Llywodraethwyr wybodaeth benodol sy'n ymwneud â chofnodion presenoldeb disgyblion (gweler paragraff 6(c) yn yr Atodlen i'r Rheoliadau blaenorol), ac yn ei le yn rhoi gofyniad newydd i gynnwys gwybodaeth am absenoldebau awdurdodedig a diawdurdod fel y nodir hwy yn llawlyfr yr Ysgol.